

Y Bwrdd Rheoli – Cylch Gorchwyl

Aelodaeth

Y Prif Weithredwr a'r Clerc (Cadeirydd)

Cyfarwyddwyr

Penaethiaid Gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd.

Amcanion y Bwrdd

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, sef aelodau gweithredol, dibleidlais o'r Comisiwn, fydd yn llywio gwaith y Bwrdd, yn ei stiwardio ac yn ei lywodraethu'n gyffredinol ac yn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'i amcanion. Bydd yn:

- ymdrin â busnes a phenderfyniadau o natur strategol, eang; mae'r rhain yn debygol o fod yn faterion a chanddynt oblygiadau'r tu hwnt i'r flwyddyn dan sylw;
- pwysu a mesur ac ystyried goblygiadau neu effaith amrywiaeth eang o ffactorau'n ymwneud â'n swyddogaeth yn y dyfodol, gan gynnwys dylanwadau allanol, rhanddeiliaid allweddol, a chadw llygad ar ddatblygiadau posibl;
- gwthio'r fframwaith ar gyfer cynlluniau corfforaethol yn y dyfodol yn ei flaen, penderfynu ar themâu a blaenoriaethau, adolygu ein swyddogaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau hirdymor;
- cwblhau prosesau i fodloni gofynion llywodraethu ffurfiol fel y datganiad llywodraethu, yr adroddiad blynyddol;
- addasu strwythur y sefydliad i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben a bod gennym y bobl iawn, sydd â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau a hefyd yn fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth. Bydd yn ymdrin â materion rheoli, materion gweithredol a materion polisi sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau. Bydd yn:

- gwneud penderfyniadau am faterion a pholisïau a gaiff effaith tymor byr a thymor canolig (e.e. o fewn cylch cynllunio blynyddol);
- adolygu perfformiad a sicrhau bod y cyfarwyddiaethau'n cymryd y camau priodol;
- ysgogi ac ystyried syniadau newydd a sicrhau bod y cyfarwyddiaethau'n eu datblygu yn y modd mwyaf effeithiol;
- ystyried sut i weithredu strategaethau corfforaethol, fel adnoddau dynol, marchnata a TGCh, a'u datblygu yn y dyfodol;



- parhau i gadw golwg cyffredinol ar faterion cyfathrebu drwy'r holl feysydd gwasanaeth a gwthio newidiadau yn eu blaen, gan gynnwys sicrhau bod yr uwch reolwyr yn weladwy a'i bod yn hawdd siarad â nhw;
- ystyried materion pan fydd meysydd gwasanaeth yn dibynnu ar ei gilydd a chytuno ar y cymorth corfforaethol y mae angen i wahanol feysydd gwasanaeth ei roi i'w gilydd;
- sicrhau bod gwaith y Bwrdd Rheoli yn cael ei ledaenu'n effeithiol drwy'r holl feysydd gwasanaeth.

Wrth wneud hyn, bydd yn:

- canolbwyntio'n glir ar gyflawni amcanion;
- gweithio ar broblemau sefydliadol;
- sicrhau bod blaenoriaethau mewn rhannau gwahanol o'r sefydliad yn eglur;
- cryfhau synergeddau.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn goruchwyllo gwaith yr holl gyfarwyddiaethau a'r grwpiau gwasanaeth drwy:

- adolygu perfformiad yn ystod y mis a'r chwarter blaenorol a thynnu sylw at unrhyw gamau y mae angen eu cymryd;
- edrych ymlaen at y chwarter nesaf ac ystyried unrhyw ffactorau a fydd yn effeithio ar y modd y caiff y sefydliad ei redeg;
- sicrhau bod y sefydliad yn gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau i gwsmeriaid ac yn diwallu eu hanghenion;
- sicrhau bod y sefydliad yn gwthio newidiadau yn eu blaen i weithio'n fwy effeithlon;
- ystyried risgiau difrifol, lefel uchel a allai rwystro'r sefydliad rhag cyflawni ei amcanion busnes;
- sicrhau bod perfformiad, gwelliannau a chamau gweithredu'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n gwerthoedd.

Cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli

Eitemau sefydlog

Caiff yr eitemau a ganlyn eu hystyried yn rheolaidd:

- Y gofrestr risg gorfforaethol
- Yr adroddiad rheolaeth ariannol
- Gwaith y Bwrdd Buddsoddi

Ymddygiad mewn cyfarfodydd

Mae'r Bwrdd Rheoli yn fforwm agored lle caiff trafodaeth a dadleuon adeiladol eu hannog. Bydd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y papurau sy'n cael eu hystyried ac eitemau eraill ar yr agenda, a dylid darllen y rhain cyn y cyfarfod.



Pa mor aml fydd y Bwrdd yn cyfarfod?

Bydd y Bwrdd Rheoli yn cyfarfod bob mis neu'n amlach os oes angen gwneud hynny i fodloni gofynion y sefydliad ac i hwyluso'r broses o ddatblygu a chyflwyno argymhellion, gweithgareddau a phrosiectau strategol i'r Comisiwn i gyflwyno gwybodaeth neu i wneud penderfyniadau.

Papurau'r Bwrdd Rheoli

Dylid paratoi'r papurau ar gyfer y cyfarfod yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio'r templed y cytunwyd arno.

Caiff y papurau eu cyhoeddi dridiau o leiaf cyn y cyfarfod.

Caiff y papurau (ac eithrio'r rhai y penderfynwyd na fyddai'n addas eu cyhoeddi) eu cyhoeddi ar y Fewnwyd cyn pen chwe wythnos ar ôl y cyfarfod.

Adolygu

Caiff y cylch gorchwyl hwn ei adolygu o bryd i'w gilydd.

